


Cynllun Gweithredu Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro wedi bod yn gweithio ar gynhyrchu cynllun gweithredu er mwyn cydlynu'r ffordd o fynd i'r afael â Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol yn y Sir. Mae ffactorau fel cynnydd mewn teithio'n fyd-eang, masnach fyd-eang a newid yn yr hinsawdd oll yn cyfuno i gynyddu'r risg o Rywogaethau Anfrodorol Goresgynnol yn dod i mewn i'r DU. Mae Sir Benfro wedi arwain wrth ddatblygu cynllun lleol i gydlynu ymdrechion ar y rhywogaethau y credir eu bod yn fwyaf tebygol o fygwth bioamrywiaeth frodorol a/neu fud-dion economaidd dynol ar lefel Sirol.

Fe wnaeth y Bartneriaeth ystyried tua 200 o rywogaethau anfrodorol sydd ar restr y DU gan gwtogi'r rhestr honno i 40 o rywogaethau yn lleol. Roedd 31 ohonynt yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth uchel ar gyfer gweithredu. Darperir cysylltiadau at dafenni ffeithiau a mesurau rheoli y mae Ysgrifenyddiaeth Anfrodorol Prydain Fawr yn eu cyhoeddi, os ydynt ar gael.



Rhydin-y-gog Americanaidd. Un o'r rhywogaethau sydd wedi'u hadnabod yn flaenoriaeth ar gyfer gweithredu yn Sir Benfro.

Llun: Ysgrifenyddiaeth Anfrodorol Prydain Fawr.

Gobeithir y bydd y cynllun yn cynnig sail re-symegol dros weithredu cadwraeth ac y bydd yn cynorthwyo wrth gael mynediad at ariannu prosiectau wedi'u cydlynu ar draws y Sir.

Adeg ysgrifennu hwn, disgwylir i'r cynllun gael ei gyhoeddi yn fuan ac unwaith y bydd yn cael ei gyhoeddi bydd ar gael i'w weld yma:

<http://ukbars.defra.gov.uk/project/show/37479>

PEMBROKESHIRE BIODIVERSITY PARTNERSHIP



PARTNERIAETH BIOAMRWYIAETH SIR BENFRO

Cyrol 11 Rhifyn 2
Haf 2014

Yn y rhifyn hwn



Cynllun Gweithredu Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol Tudalennau 1-2

Siarc yn Sir Benfro? Tudalennau 2-3

Menyg cyll yn newydd i Sir Benfro Tudalennau 3-4

Ceidwaid Parc yn rhannu heriau'r dyfodol Tudalennau 4-5

Tiroedd Ysgol y Glannau – Hafan i Fwyd Gwylt Tudalennau 5-6

Bywyd Gwylt yn eich Ardal Tudalennau 6-7

Prosiect Perllannau'r Parc yn Palu 'Mlaen Tudalennau 7-8

Gorllewin Williamston yn cael gweddnewidiad Tudalen 8

Digwyddiadau Tudalennau 9-11

Manylion Cysylltu Tudalen 12



Mae cyhoeddi'r cynllun hwn yn cyd-daro â deddfwriaeth newydd yr Undeb Ewropeaidd ar Rywogaethau Anffordrol Goresgynnol i wahardd bod ym meddiant, cludo, gwerthu neu dyfu rhywogaethau yr ystyrir eu bod o bryder i'r Undeb.

Am ragor o wybodaeth, neu os hoffech chi gynig rhai gweithredoedd cadwraeth ymarferol er mwyn cyfrannu at nodau'r cynllun newydd, cy-sylltwch â'r Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth.

Ant Rogers

Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth.

SIARC YN SIR BENFRO?

Mae'n bosibl eich bod yn arfer clywed straeon am bethau rhyfedd a rhyfeddol yn cael eu golchi ar lan ein harfordir... ond mae hon yn eithriadol!

Roedd Mari Williams, Swyddog Prosiect **Cadw Cymru'n Daclus** ar gyfer Sir Benfro, wedi'i chyffroi a'i syfrdanu pan ddaeth ar draws dyfais ryfedd yn ystod sesiwn glanhau'r traeth ym Mae Goglewinol Dale yn Sir Benfro ar 6 Mawrth. Canfuwyd wedyn mai tag siarc lloeren ydoedd a roddwyd yn wreiddiol ar forgi'r Ynys Las yng Nghefnfor yr Arctig yng ngogledd Canada.

Mari Williams yn dal y tag lloeren ar y traeth ble y daeth o hyd iddo.



Ar ôl sylwi mai tag ydoedd, anfonodd Mari lun twitter at y Shark Trust, elusen diogelu siarcod. Ar ôl gweld y llun ac adnabod y ddyfais, awgrymodd Dr. Simon Pierce, o Sefydliad Marine Megafauna, California y dylai gysylltu â'r gwneuthurwr sef Wildlife Computers wedi'u lleoli yn Seattle. Adroddwyd ar y rhif cyfresol a'i olrhain yn ôl i Nigel Hussey, gwyddonydd yn y Great Lakes Institute for Environmental Research yng Nghanaada.



Morgi'r Ynys Las yn cael ei dagio gan Nigel Hussey (yn y canol) ym mis Medi 2012. Llun: Stephen Fields

"Dydyn ni erioed wedi derbyn un yn ôl o'r blaen, mae'n wych", dywedodd Hussey, sydd wedi gosod nifer o dagiau ar siarcod a chathod môr oddi ar arfordir Y Swdan ynghyd â Chefnfor Arctig Canada. "Fydden ni byth wedi dychmygu o'i roi allan mewn lle mor anghysbell y byddai'n cael ei ddarganfod."

"Ni wnaeth y tag hwn erioed drosglwyddo unrhyw ddata i'r lloeren; fe ddiflannodd ac fe wnaethom ninnau anobeithio."

Yn debyg o ran maint a siâp i ficroffon, mae'r ddyfais yn aros ar yr anifeiliaid am fisoedd, yn cofnodi amrywiaeth o ddata megis lleoliad, dyfnder dŵr a thymheredd. Ar ôl peth amser, mae'r dyfeisiau wedi'u rhaglennu i'w rhyddhau o'r anifail, arnofio i'r arwyneb a throsglwyddo'r data i'r lloeren. Gall gwyddonwyr weld y data o'u labordai a chael darlun mwy cyflawn o ymddygiad yr anifail. Serch hynny, nid yw'r holl ddata yn cael ei drosglwyddo, felly mae derbyn un yn ôl yn gallu bod yn drysor llwyr, ond yn hynod brin.



Diolch i ddarganfyddiad Mari, mae Nigel Hussey a'i dîm yng Nghanada bellach wedi tynnu'r data o'r tag.

Yn ôl Hussey:

"Dyma'r data mwyaf manwl yr ydym erioed wedi'i dderbyn ar gyfer morgi'r Ynys Las!"

Ar sail y data a gasglwyd o'r ddyfais, mae Hussey wedi penderfynu bod y ddyfais wedi dod oddi ar yr anifail ym mis Rhagfyr 2012 yng nghanol Culfor Davis, rhwng Ynys Baffin a Grønland, ac wedi arnofio'r holl ffordd i Gymru - pellter o tua 6,000 cilometr.

Eisiau cymryd rhan a chanfod mwy am arfordir Sir Benfro? Ym mis Mai byddwn yn dathlu ein harfordir prydferth gydag **Wythnos Arfordir Glân Mai 10-18**. Trefnwch a chofrestrwch eich digwyddiad glanhau'r arfordir eich hun i weld beth y gallech chi ddod o hyd iddo! Am ragor o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i www.keepwalestidy.org/cleancoast

Mari Williams
Cadw Cymru'n Daclus



Menyg cyll (*Hypocreopsis rhododendri*) yn newydd i Sir Benfro

Mae Menyg cyll (*Hypocreopsis rhododendri*) yn ffwng tebyg i gen sydd i'w weld mewn coedwigoedd cyll cefnforol ac roedd yn anhysbys yn Ewrop hyd at ei ddarganfyddiad cyntaf ar Mull yn 1975. Mae'n ymddangos bod menyg cyll yn barasitig ar ffyngau eraill, y 'gramen ludiog' (*Hymenochaete corrugate*), ffwng cyffredin ar goesynnau cyll marw neu sy'n marw.

Mae llabedau tebyg i fysedd, lliw brown golau y menyg cyll yn golygu ei bod yn rhywogaeth unigryw, hawdd ei hadnabod. Serch hynny, nid yw'n hawdd ei chanfod ac fe ellid ei gweld

yn weddol uchel yn y canopi ac mae'r un lliw â dail marw. Gan ei bod yn tyfu yng nghanopi'r coed, efallai y byddai'n fwy tebygol o gael ei hadnabod gan arbenigwr cen!

Yn gyffredinol mae menyg cyll wedi'u cyfyngu i glystyrau hynafol o goedwigoedd cyll arfordir cefnfor lwerydd gyda'u poblogaethau craidd yng Ngorllewin yr Alban a Gorllewin Iwerddon. Mae'r rhywogaeth wedi'i chanfod hefyd yn Nyfnaint a Chernyw, dau safle yn Sir Gaerfyrddin a chofnod diweddar iawn yng Ngogledd Cymru.



Ym mis Rhagfyr 2013 daethpwyd o hyd i boblogaeth newydd yn ardal Brandy Brook yng Ngogledd-orllewin Sir Benfro. Daethpwyd o hyd i o leiaf deg o leiniau ffrwytho aeddfed ynghyd â nifer o fân ddarnau. Digwydd y boblogaeth yma ar o leiaf pump o goed cyll wrth ochr hawl tramwy cyhoeddus, ac mae un ohonynt yn hongian dros y llwybr cerdded. Mae gan sycamorwydden sydd gerllaw'r hyn sy'n edrych fel gweddillion marw menyg cyll ar ei gwaelod. Rydym yn disgwyl cadarnhad ar hyn o bryd. Os mai menyg cyll ydyw, yna fe fyddai'n is-haen cwbl newydd i'r rhywogaeth.

Mae safle'r cofnod hwn o ddiddordeb - nid yw'n goedwig hynafol ond yn hen gae sydd wedi'i adael sy'n cael ei oresgyn gan gyll. Mae llawer o'r dyffryn yma yn araf droi'n ôl at goetir trwy adfywiad naturiol. Roedd cloddiau o amgylch yr hen gaeau ac roedd ganddynt goed aeddfed o'u cwrpas ac yn ôl pob tebyg roedd




gan y dyffryn wedd gweddol goediog bob amser. Mae'r ardal ble daethpwyd o hyd i'r menyg cyll yn un o'r clystyrau mwy aeddfed o goetir eilaidd yn y dyffryn.

Mae gan y clwstwr agosaf o goedwig hynafol ganopi wedi'i ddominyddu gan dderwen gydag ychydig bach o gyll yn yr is-haenau. Mae'n annhebygol felly o gefnogi menyg cyll ac felly gallai ymddangosiad y rhywogaeth yma fod o ganlyniad i ddigwyddiad gwladychu pell. O ystyried dosbarthiad menyg cyll yn lwerddon a chyfeiriadau'r prifwynt, ymddengys bod gwladychu o lwerddon yn annhebygol gyda phoblogaethau Gogledd Dyfnaint yn fwy tebygol o fod yn ffynhonnell yr hadau. Serch hynny, ni ddylem ddiystyru'r posibilrwydd o boblogaeth Gorllewin Cymru graidd. Dylai unrhyw glystyrau o gyll sy'n ffurfio canopi yn y sir gael eu harchwilio am fenyg cyll, efallai'r rheini yn Ne Sir Benfro yn benodol. Mae'n hysbys bod y rhywogaeth hefyd yn digwydd ar y ddraenen ddu, helyg a'r rhosyn gwyllt.

Mae graddau posibl y rhywogaeth yn Sir Benfro yn anhysbys. Gallai unrhyw un sy'n rheoli cyll (e.e. ar gyfer pathewod) ystyried y posibilrwydd y gallai'r rhywogaeth hon fod yn bresennol.

Map dosbarthiad *Hypocreopsis rhododendri* (Diolch i Dave Genney (SNH) a'i gydweithwyr).



Byddem yn falch o glywed gan unrhyw un sy'n gwybod am glystyrau o gyll, yn enwedig os yw'n ffurfio canopi o fewn dyffryn llaith neu leoliad arfordirol ac fe allem geisio trefnu arolygon ar gyfer y rhywogaeth hon.

Jon Hudson

Cyfoeth Naturiol Cymru

Ceidwaid Parc yn rhannu heriau'r

Rhannwyd yr heriau a wynebwr wrth reoli tirwedd unigryw Arfordir Penfro gyda Cheidwaid o Barciau Cenedlaethol ar draws y wlad yn ddiweddar.

Croesawodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Geidwaid o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill ar draws Lloegr, yr Alban a Chymru, trwy gynnal cynhadledd ar y thema 'Rheoli Hamdden i sicrhau Canlyniadau Positif'.

Nod y gynhadledd oedd dangos pwysigrwydd gweithio gyda pherchenogion tir, cymunedau a busnesau lleol wrth reoli mynediad i gefn gwlad, wrth sicrhau cydbwysedd rhwng cadwraeth a hamdden.

Meddai Rheolwr Ceidwaid yr Awdurdod, Libby Taylor: "Roedd y cyfle i gwrdd ag 20 o gydweithwyr o Barciau Cenedlaethol eraill y Deyrnas Unedig a rhannu gwybodaeth a phrofiad yn amhrisiadwy. Mae'r Ceidwaid yn gweithio ym Mharciau Cenedlaethol y Deyrnas Unedig, ac mae gan bob un dirwedd unigryw, bywyd gwyllt brodorol a chymunedau ffyniannus.

"Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ardal sy'n cyflwyno heriau o ran rheoli hamdden, oherwydd mae llawer o'r gweithgaredd yn canolbwyntio ar goridau cul iawn, gan gynnwys Llwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, sy'n 186 milltir o hyd, a nifer o draethau poblogaidd iawn. Dyma



gyfle gwych i rannu'n profiadau ac i wrando ar fusnesau a pherchenogion tir."

Fe fu'r grŵp o Geidwaid parc yn ymweld â safleoedd lleol, gan gynnwys Abereiddi a Phorthstinian ac yn cwrdd â phobl fusnes a pherchenogion tir lleol gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac roedd yn gyfle gwerthfawr i drafod materion hamdden arfordirol o bersbectif perchenog tir.



Roedd y gwaith a'r datblygiadau sydd ar y gweill gan Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro hefyd ar yr agenda, a rhannwyd syniadau a gweledigaeth ar faterion fel digwyddiadau mawr, rheoli cŵn a defnyddio cyfryngau cymdeithasol.

Ychwanegodd Libby: "Roedd yn ymgynulliad hynod o lwyddiannus, ac roedd yn amlwg fod holl Awdurdodau'r Parciau yn dibynnu ar gydweithrediad a chefnogaeth busnesau a pherchenogion tir lleol wrth sicrhau cydbwysedd rhwng cadwraeth a hamdden."

Yn adroddiad *Rhoi Gwerth ar Barciau Cenedlaethol Cymru* y llynedd, darganfuwyd bod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r ardal gyfagos yn denu 4.2 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn, yn cefnogi 7,039 o swyddi ac yn cyfrannu £187 miliwn o Werth Ychwanegol Crynswth at economi Cymru.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
01646 624823



Tiroedd Ysgol y Glannau – Hafan i Fwyd Gwylt

Mae Ysgol y Glannau sydd wedi'i lleoli yn St Ishmael yn ffodus bod ganddyn nhw diroedd ysgol gwych. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae staff, disgyblion a'u rhieni wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r tiroedd ar gyfer bywyd gwylt er mwyn eu defnyddio'n fwyfwy fel 'ystafell ddosbarth awyr agored'.

Ewch yn ôl pum mlynedd, ac roedd y tiroedd yn edrych yn debyg i unrhyw ysgol arall. Cae glas mawr yn cael ei ddefnyddio ar gyfer chwaraeon, clawdd ar un ochr a gardd ysgol a oedd yn llawn mieri.

Aed i'r afael â'r gwaith gyda help gweithlu o rieni gwirfoddol ac yn defnyddio sgiliau a chefnogaeth y gymuned leol i weddnewid y tiroedd.

Tyfu llysiau, ffrwythau a pherlysiau

Fe wnaethom glirio gardd yr ysgol (gyda help cloddiwr) ac adeiladu gwelyau s godwyd ar gyfer tyfu llysiau a ffrwythau a rhai llai o faint ar gyfer perlysiau. Daeth ffermwyr lleol â phentwr anferth o dail ac uwchbridd sydd wedi helpu pethau i dyfu. Mae'r plant yn garddio bron bob dydd Gwener ac maen nhw wedi tyfu amrywiaeth eang o gynnyrch - yr uchafbwynt bob amser yw cynaeafu a mynd â detholiad o lysiau adref gyda hwy. Y ffefrynau yw pys melys, india-corn, tomatos bach



a'r pwmpenni anferth. Er mwyn rhoi hwb i gynnyrch yr ardd adeiladwyd tŷ gwydr o boteli plastig - fe gymerodd hi flwyddyn gan fod angen casglu 2000 o boteli plastig i'w hailddefnyddio. Fe ddechreuwyd ar y tŷ yn 2011 a'i orffen ym mis Mawrth 2012 mewn pryd i dyfu tomatos a sawl ciwcymbr.

Coed, cloddiau a helyg

Pob gaeaf rhwng 2009 a 2012 rhoddwyd coed gan yr Ymddiriedolaeth Coetiroedd ac mae'r plant wedi mwynhau plannu'r rhain o amgylch tiroedd yr ysgol. Byddant yn cymryd amser i dyfu ond mae'r rhai cyntaf i gael eu plannu yn edrych yn dda yn awr, yn enwedig y fedwen arian. Er mwyn helpu i blannu clawdd newydd, daeth byddin o wirfoddolwyr Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro â 200 o blanhigion ac fe wnaethant weithio gyda'r plant. Yn ychwanegol, er mwyn creu rhai ardaloedd i'r plant chwarae, fe wnaethom blannu tŷ a thwnnel helyg sy'n edrych yn wych ar ôl 4 mlynedd. Pob gaeaf mae'n rhaid i ni eu tocio yn ôl ond yna gallwn ddefnyddio'r toriadau i blannu mwy o ardaloedd neu i wehyddu helyg.



Pwll Bywyd Gwyllt

Yr uchafbwynt mawr yw'n pwll bywyd gwyllt. Derbyniwyd cyllid gan grant cymunedol South Hook LNG er mwyn talu gweithwyr proffesiynol i ddod i mewn i'w adeiladu! Cyrhaeddodd y cloddwyr ym mis Ionawr 2012 gan gloddio pwll yng nghornel cae'r ysgol. Cafodd y pwll ei leinio ac adeiladwyd llwybr o'i amgylch. Llanwodd y pwll yn gyflym iawn gyda dŵr glaw yn ystod Chwefror a Mawrth ac yna gosodwyd planhigion bywyd gwyllt ynddo. Dechreuwyd dyddiadur pwll i gofnodi popeth a oedd yn digwydd ac ym mis Mai fe wnaethom ein 'harolwg

sampl pwll' ac roeddem wedi'n cyffroi'n lân o ganfod madfall y dŵr! Mewn sesiwn arall ym mis Medi daethom o hyd i 12 o wahanol greaduriaid - rhyfeddol o fewn 9 mis yn unig. Yn y gwanwyn 2013 cawsom ein penbyliaid cyntaf!

Dolydd Bywyd Gwyllt

Cliriwyd cornel o diroedd yr ysgol a'i blannu â hadau gwyllt y dolydd. Wrth iddo dyfu rydym wedi perswadio ein contractwyr torri gwair i dorri rhai llwybrau trwodd fel bod gennym laswellt hir i'w archwilio. Mae'r plant wrth eu boddau yn ysgubo â rhwydau trwy'r glaswellt i weld beth allant ei ganfod ac mae dal ceiliogod rhedyn bellach yn weithgaredd amser chwarae trwy gydol yr haf.

Mae tiroedd yr ysgol yn lleoedd gwych i'w datblygu ar gyfer bywyd gwyllt ac mae'n fan delfrydol i'w ddatblygu fel ystafell ddosbarth awyr agored. Y cyfan sydd angen yw ychydig o ymroddiad ac egni gan y gymuned ysgol gyfan.

Am ragor o wybodaeth am ein prosiectau cysylltwch â:

Kate Lock rumbalock@tiscali.co.uk neu Mr Harries (Pennaeth)

Head.coastlands@pembrokeshire.gov.uk

Kate Lock

Ysgol y Glannau

Bywyd Gwyllt yn eich Ardal

Dechreuodd y digwyddiadau Bywyd Gwyllt yn eich Ardal 2014 ar 3 Mai gyda thaith gerdded ar hyd dyffryn coediog godidog Brandy Brook yn y Garn. Mae 'Bywyd Gwyllt yn eich Ardal' yn rhaglen ar y cyd rhwng Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro a Menter Gwerthfawrogi'r Amgylchedd PLANED. Mae'n cynnig cyfle i gymunedau ddysgu am fywyd gwyllt ar safle yn eu hardal. Mae'r prosiect wedi'i gynllunio i annog y rheini sydd â diddordeb mewn bywyd gwyllt i ddatblygu a gwella eu sgiliau adnabod, cefnogi pobl i greu cofnodion ar



Bywyd Gwylt yn eich Ardal yn Dale yn 2012. Llun: Sarah Gerlach



gyfer WWBIC a'u hysbrydoli i warchod eu hamgylchedd lleol.

Ddydd Sul 29 Mehefin cynhelir digwyddiad 'Peillwyr' 'bywyd gwylt yn eich ardal' yng Nghanolfan Bywyd Gwylt Cilgerran, rhwng 12 hanner dydd a 3pm, a byddwn yn edrych ar bwysigrwydd peillwyr a'r rolau amrywiol y maen nhw'n eu chwarae.

Am ragor o wybodaeth am y digwyddiadau hyn ac eraill, edrychwch ar ein calendr ar-lein newydd, cliciwch ar y ddolen ar waelod tudalen Gwerthfawrogi'r Amgylchedd:

<http://www.planed.org.uk/valuing-the-environment>

Os hoffech chi gynnwys eich digwyddiadau ar y calendr, anfonwch y manylion at Swyddog Gwerthfawrogi'r Amgylchedd, Sarah Gerlach sarahg@planed.org.uk

Am ragor o wybodaeth am Werthfawrogi'r Amgylchedd, pwyswch 'hoffi' ar ein tudalen Facebook neu bwyso 'dilyn' ar Twitter.

www.facebook.com/ValuingTheEnvironment

www.twitter.com/VTEEnvPLANED

Sarah Gerlach

PLANED



Prosiect Perllannau'r Parc yn Palu 'Mlaen

Mae yna ymgyrch bwysig ar y gweill i sicrhau na fydd mathau traddodiadol o ffrwythau'n cael eu colli ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi lansio *Prosiect Perllannau Treftadaeth* ac yn gofyn i unrhyw un yn y Parc Cenedlaethol, neu gerllaw, sy'n berchen ar hen goed ffrwythau neu hen berllannau, i gysylltu â nhw.

Eisoës, mae'r Awdurdod yn gofalu am ddwy hen berllan treftadaeth yn y Parc, yn Sain Ffraid a Brownslade ar Faes Castellmartin. Fe fu staff wrthi'n gweithio i ddiogelu'r hen fathau o goed sy'n tyfu yno. Maen nhw'n cymryd toriadau ac fe fyddan nhw'n cael eu defnyddio i dyfu coed mewn safleoedd sydd eisoës yn bodoli ac mewn perllannau cymunedol newydd y mae Ceidwaid y Parc Cenedlaethol yn helpu eu sefydlu.

Fe fydd Mencap Sir Benfro hefyd yn helpu tyfu'r coed ifanc yng Ngardd Furiog Ystagbwll, sydd yn berllan hanesyddol.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi dechrau sesiynau hyfforddiant i gynghori perchenogion a



Gwifoddolwyr yn dysgu am reoli perllannau. Llun: PCAP

gwifoddolwyr ar reoli coed er mwyn cynhyrchu ffrwythau ac er budd bywyd gwylt.

Meddai Swyddog y Prosiect Perllannau, Haydn Garlick: "Mae perllannau'n rhan o'n treftadaeth ond maen nhw hefyd yn darparu gofodau cymunedol heddychlon, yn gynefinoedd pwysig i fywyd gwylt ac yn gallu cynnal rhywogaethau anarferol a rhai sydd dan fygythiad, fel ystlumod a chennau. Maen nhw hefyd yn dda am gynnal peillwyr, fel y wenynen frodorol. Yn hanesyddol, dewiswyd a phlannwyd coed ffrwythau i gyfateb â'r amodau lleol o ran hinsawdd a'r math o bridd.



Anghofiwyd am lawer o'r hen fathau hyn neu fe'u collwyd yn gyfan gwbl, wrth i'r coed farw neu wrth iddynt gael eu gwaredu. Rydyn ni am adnabod yr hen fathau hyn a diogelu'r hyn sydd ar ôl, er mwyn gwarchod amrywiaeth genetig coed a'r cynefinoedd pwysig y maen nhw'n eu darparu yn y Parc Cenedlaethol."

Ariennir Prosiect Perllannau Treftadaeth trwy Grant Ecosystemau Gwydn Cyfoeth Naturiol Cymru.

Os oes gennych hen goed ffrwythau a hoffech gael ychydig o gymorth i wybod beth ydyn nhw, neu ddysgu sut i ofalu amdanyn nhw, cysylltwch ag Awdurdod y Parc ar 0845 345 7275.

PCAP

Gorllewin Williamston yn cael gweddnewidiad

Bydd y rheini sy'n gyfarwydd â Gwarchodfa Natur Gorllewin Williamston wedi sylwi bod amrywiaeth o weithiau wedi'u cwblhau yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf. Mae mwyafrif y rhain wedi cynnwys cyflawni trefnau rheoli a amlinellwyd o dan gynllun Coetiroedd Gwell i Gymru y safle. Roedd y rhain yn cynnwys teneuo Coed Ynn er mwyn caniatáu mwy o olau i mewn i lawr y goedwig a chreu amrywiaeth o strwythurau yn yr haenen ganopi, adnabod hen goed, agor llennyrch a chael gwared ar frigau crog peryglus o lwybrau cerdded. Er mawr syndod, ychydig iawn o ddifrod a oedd wedi bod i goed ar ôl stormydd trwm y gaeaf er i'r Coed Ffawydd trawiadol golli nifer o ganghennau. Er hynny, mae'r goedwig yn fwy iach nag yw wedi bod am nifer o flynyddoedd. Ni allaf ddychmygu beth fyddai effaith clefyd coed Ynn ar y safle hwn ac mae'n rhywbeth y mae'r Ymddiriedolaeth Natur yn ei fonitro. Nid oes unrhyw beth wedi'i ganfod hyd yma ond efallai mai mater o amser yw hi.

Llun: Casglu sbwriel yng Ngorllewin Williamston



Ymhlith y prosiectau eraill oedd atgyweirio llwybrau cerdded ble defnyddiwyd calchfaen lleol i lanw pantiau a gwastadau ardaloedd, defnyddio contractwr i dopio a dymu mieri sy'n gorgyffwrdd â chynefinoedd dolydd gwerthfawr ac yn fwy diweddar, casglu ysbwriel a chafodd 18 bag ysbwriel ac un Môr-nodwydd eu casglu!

Mae rhywogaeth brithribin brown eiconig y warchodfa hefyd wedi'i monitro trwy gydol misoedd y gaeaf. Mae'r wyau a gafodd eu dodwy'r tymor diwethaf wedi'u cyfrif, colled i ysglyfaethu wedi'i nodi ac mae eu cyfradd deor yn cael eu harolygu ar hyn o bryd. Cafodd ychydig dros 1,600 o wyau eu cyfrif ac ar 9 Ebrill dechreuodd yr wyau cyntaf ddeor. Cadwch olwg am y rhywogaeth anodd dod o hyd iddi yn ystod misoedd yr haf, yn enwedig yn ystod mis Awst pan ddaw'r benywod i lawr o'r canopi Ynn i ddodwy eu hwyau ar y Ddraenen ddu ifanc.

Mae'r gwanwyn yn sicr yma ac adeg hon y flwyddyn mae Blodau'r Gwynt, Clychau'r Gog, Briallu a Dant y Ci yn carpedu'r tir gyda garlleg gwyllt yn cynnig arogl daearol. Mae'r gnoell fraith fwyaf yn sicr yn uchel ei chloch gyda'i drymio yn atseinio drwy'r goedwig bron bob dydd.

Nathan Walton

Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru



Digwyddiadau Bioamrywiaeth Mai 2014



Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
25 Mai 11:00 12:30	Pyllau glan môr, Trefdraeth	Ymunwch â'r chwilio wrth i ni edrych yn agosach ar fywyd gwyllt cyfareddol a rhyfeddodau naturiol ar y lan. Rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn.	PCNPA 01834 845040
25 Mai 17:00 18:30	C a s g l u C r a n c o d , Porthclais	Gweithgaredd hwyliog gwyh i'r teulu i gyd. Dysgwch fwy am y creaduriaid cyfareddol hyn. Darperir y cit i gyd. Rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn.	PCNPA 01834 845040
26 Mai 11:00 12:30	Pyllau glan môr, Caerfai	Ymunwch â'r chwilio wrth i ni edrych yn agosach ar fywyd gwyllt cyfareddol a rhyfeddodau naturiol ar y lan. Rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn.	PCNPA 01834 845040
27 Mai 20:15 21:45	Y s t l u m o d i Gwych, Castell Caeriw	Taith gerdded sy'n addas i'r teulu edrych am ystlumod a gwrandio eu galwadau gydag offer arbennig ac i ddysgu am eu ffordd o fyw anarferol.	PCNPA 01834 845040
27 Mai 20:30 22:00	Y s t l u m o d i Gwych, Aber Bach	Taith gerdded sy'n addas i'r teulu edrych am ystlumod a gwrandio eu galwadau gydag offer arbennig ac i ddysgu am eu ffordd o fyw anarferol.	PCNPA 01834 845040
28 Mai 14:00 15:30	Yn yr Afon, Tyddewi	Gweithgaredd hwyliog gwyh i'r teulu i gyd. Cyfle i fynd yn agos a chanfod am fywyd yn yr afon. Darperir rhwydi, ond dewch ag esgidiau addas i gerdded ar wely'r afon. Rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn.	PCNPA 01834 845040
28 Mai 14:00 15:30	Yn yr Afon, Maenorbŷr	Gweithgaredd hwyliog gwyh i'r teulu i gyd. Cyfle i fynd yn agos a chanfod am fywyd yn yr afon. Darperir rhwydi, ond dewch ag esgidiau addas i gerdded ar wely'r afon. Rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn.	PCNPA 01834 845040



Digwyddiadau Bioamrywiaeth



Wythnos Bioamrywiaeth Cymru
Wales Biodiversity Week

7 -15 Mehefin /June 2014

Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
4 Mehefin	Taith gerdded natur dywysedig Freshwater East. Dechrau 10:30.	Dysgwch enwau blodau lleol a darganfod eu defnydd wrth goginio ynghyd â'r mythau a'r meddyginiaethau y maen nhw wedi'u hysbrydoli.	Vicky Tomlinson 01646 672615
10 Mehefin 10:30 – 12:30	Taith Gerdded Penpedwast	Ymunwch ag arweinydd teithiau cerdded y Parc Cenedlaethol ar y daith gerdded dywysedig 2 filltir o hyd hon trwy'r goedwig a'r tir fferm sy'n amgylchynu Caer Oes Haearn Castell Henllys. Mae rhai darnau serth, a rhai darnau mwdlyd.	PCNPA 01834 845040
10 Mehefin 14:00 – 15:30	Blodau ar Castle Hill	Ymunwch ag arweinydd y Parc Cenedlaethol yn Castle Hill, Dinbych-y-pysgod; perl naturiol sydd wedi'i hanghofio. Dysgwch fwy am y blodau gwyllt sy'n garped ar forlin Sir Benfro. Cwrdd yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol yn Ninbych-y-pysgod ar gyfer y daith dywysedig hon.	PCNPA 01834 845040
13 Mehefin	Diwrnod Adnabod Gwenyn, Scolton	Fel rhan o Wythnos Bioamrywiaeth Cymru, mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro ac Ymddiriedolaeth Cadwraeth Gwenyn Bwm yn trefnu cwrdd Adnabod Gwenyn Bwm. Rhaid archebu lle.	Ant Rogers 01437 776146 Anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk
13 Mehefin 18:30 – 20:00	Ehedyddion a Blodau Gwyllt yn Nhyddewi	Mae'r daith gerdded hon gyda'r nos yn dechrau yn Fachelich ac yn dilyn y llwybrau cerdded o amgylch Maes Awyr Tyddewi. Cyfle i weld blodau gwyllt a gwrando ar gân esgynnol yr ehedydd ar y daith gerdded hon yn gynnar gyda'r nos wedi'i harwain gan geidwad parc.	PCNPA 01437 720392
18 Mehefin 07:00 – 09:00	Taith Gerdded Dyfrgwn y Bore, Ystangbwl	Taith gerdded dwy filltir o hyd sy'n addas i deuluoedd, yn gynnar yn y bore ar hyd estyniadau uchaf Pyllau Lili Bosherton er mwyn chwilio am y dyfrgi gwibiog a bywyd gwyllt arall. Cyngorir gwisgo dillad cynnes ac esgidiau cadarn.	PCNPA 01834 845040
22 Mehefin	Taith gerdded natur dywysedig yn Freshwater East. Dechrau am 15:00.	Dysgwch enwau blodau lleol a darganfod eu defnydd wrth goginio ynghyd â'r mythau a'r meddyginiaethau y maen nhw wedi'u hysbrydoli.	Vicky Tomlinson 01646 672615

Digwyddiadau Bioamrywiaeth Mehefin - Gorffennaf 2014



Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
28 Mehefin	Diwrnod Agored Wythnos Bysgod Sir Benfro, Aberdaugleddau	Stondinau a gweithgareddau yn dathlu popeth yn ymwneud â physgod yn Sir Benfro!	www.pembrokeshirefishweek.co.uk
29 Mehefin	Taith gerdded natur dywysedig yn Freshwater East. Dechrau am 15:00.	Dysgwch enwau blodau lleol a darganfod eu defnydd wrth goginio ynghyd â'r mythau a'r meddyginiaethau y maen nhw wedi'u hysbrydoli.	Vicky Tomlinson 01646 672615
29 Mehefin 18:00 – 20:00	Gwyllo'r Môr yn Staciau Elegug	Ymunwch â'n Ceidwaid Parc Cenedlaethol yn yr hyfryd Staciau Elegug yn Ne Sir Benfro wrth iddynt wyllo adar môr ar y staciau, wrth iddynt ddodwy eu hwyau a magu eu rhai bach.	PCNPA 01834 845040
6 Gorffennaf 13:00 – 14:30	Casglu Crancod, Porthclais	Gweithgaredd hwyliog gwych i'r teulu i gyd. Dysgwch fwy am y creaduriaid cyfareddol hyn.	PCNPA 01834 845040
16 Gorffennaf 14:00 – 15:30	Yn yr Afon, Castell Henllys	Gweithgaredd hwyliog gwych i'r teulu i gyd. Cyfle i fynd yn agos a dysgu mwy am fywyd yr afon. Darperir rhwydi, ond dewch ag esgidiau addas i gerdded i fyny gwely'r afon.	PCNPA 01834 845040
23 Gorffennaf 07:00 – 09:00	Taith Gerdded Dyfrgwn yn Gynnar yn y Bore, Ystangbwl	Taith gerdded dwy filltir o hyd sy'n addas i deuluoedd, yn gynnar yn y bore ar hyd estyniadau uchaf Pyllau Lili Bosherton er mwyn chwilio am y dyfrgi gwibiog a bywyd gwyllt arall. Cynghorir gwisgo dillad cynnes ac esgidiau cadarn.	PCNPA 01834 845040
27 Gorffennaf 13:30 – 15:00	Pyllau Glan Môr, Caerfai	Ymunwch â'r chwilio wrth i ni edrych yn agosach ar fywyd gwyllt cyfareddol a rhyfeddodau naturiol ar y lan. Rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn.	PCNPA 01834 845040
29 Gorffennaf 14:00 – 16:00	Saffari Morfeydd Heli, Dale	Darganfyddwch y planhigion a'r anifeiliaid sy'n byw yn yr amgylchedd unigryw hwn sy'n newid yn gyson. Cyfle i fynd i rwydo am grancod a physgod. Gwisgwch hen ddillad gan y gallech chi faeddu, a dim traed noeth.	PCNPA 01834 845040

Cylchlythrau Bioamrywiaeth

Manylion Cysylltu PBSB

This newsletter is also available in English, contact Ant for an English copy.

Hoffai PBSB ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cylchlythyr hwn. Os ydych chi am ysgrifennu erthygl i'r cylchlythyr nesaf mae croeso i chi gysylltu â Ant.

- **Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth**, Ant Rogers, Ffôn – 01437 764 551 anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk
- Bioamrywiaeth Sir Benfro gwefan www.pembrokeshire.gov.uk (chwilio - bioamrywiaeth)
- Bioamrywiaeth Cymru gwefan www.biodiversitywales.org.uk

Aelodau PBSB

Cymdeithas y Tiffeddianwyr 	Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro 
Undeb Amaethwyr Cymru 	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 
Grwp Ymgynghorol Ffermio a Bywyd Gwylt 	Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro dros Fenter a Datblygu 
Cadwch Gymru'n Daclys 	Ymddiriedolaeth y Tywysog - Cymru 
 MANOR HOUSE Wildlife Park	Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar 
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr – Cymru 	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 
Cyfoeth Naturiol Cymru 	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru 
Cymdeithas Gymunedol Gyfyngedig 21C Sir Benfro 	 Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cyngor Sir Penfro 	Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru 

